






GRAFFEG

MALACHY DOYLE ANDREW WHITSON

# MALI A'R CLOI MAWR







# I weithwyr iechyd a gweithwyr gofal ym mhob man.

Cyhoeddwyd *Mali a'r Cloi Mawr* gan Graffeg yn 2020.  
Hawlfraint © Graffeg Cyf. 2020.

Hawlfraint y testun © Malachy Doyle. Hawlfraint y darluniau © Andrew Whitson. Addasiad gan Anwen Pierce. Dylunio a chynhyrchu © Graffeg Cyf. Mae'r cyhoeddiad a'r cynnwys wedi'u diogelu gan hawlfraint © 2020.

Mae Malachy Doyle ac Andrew Whitson drwy hyn yn cael eu cydnabod fel awdur a darlunydd y gwaith hwn, yn unol ag adran 77 o Ddeddf Hawlfreintiau, Dyluniadau a Phatentau 1988.

Mae cofnod catalog CIP ar gyfer y llyfr hwn ar gael o'r Llyfrgell Brydeinig.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad na'i gadw mewn system adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng electronig, mecanyddol, llungopïo, recordio, sganio neu unrhyw ddull arall, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y cyhoeddwr: Graffeg Cyf., 24 Canolfan Fusnes Parc y Strade, Llanelli, SA14 8YP, Cymru, DU. [www.graffeg.com](http://www.graffeg.com).



MALACHY DOYLE ANDREW WHITSON

# MALI A'R CLOI MAWR

MAE'R LLYFR HWN YN EIDDO I

---

---

---

---

**GRAFFEG**

'Mae'r ynys dan glo! Mae'r ynys dan glo!'

Roedd Dylan yn rhedeg o gwmpas yn wyllt ac yn gweiddi nerth esgyrn ei ben.


'Am beth wyt ti'n sôn, Dylan?' gofynnodd Mali.

'A beth yw "dan glo", beth bynnag?'

'Does neb yn cael cyrraedd na gadael yr ynys oherwydd y ffliw cas 'ma!' esboniodd Dylan.

'Ac ar ben y cwbl, does dim ysgol!'

'O na!' meddai Mali.





Roedd Dylan yn dweud y gwir. Cafodd Mali'r hanes gan ei mam pan aeth hi adre.

'Ond beth am Dada?' llefodd Mali.

Roedd ei thad wedi mynd i'r tir mawr i werthu pysgod.

'Falle fydd rhaid iddo aros yno am y tro,' atebodd ei mam.

'Bydd hi'n anodd, pwt, ond rhaid i ni gadw'r ynys yn ddiogel. Dwi'n siŵr na fydd e yno'n hir.'

Ond roedd wythnos yn hir i Mali heb Dada.





'Dwi'n iawn, Mali,' dywedodd wrthi dros y ffôn. 'Mae Yncl Ed yn gofalu amdana i.'

'Dwi'n poeni y byddi di'n mynd yn sâl,' meddai Mali wrtho. 'Mae'n debyg bod sawl un yn dal y ffliw 'ma.'

'Ond dwi'n bod yn ofalus,' atebodd ei thad. 'Dwi eisiau i ti helpu dy fam, a bydda i 'nôl cyn gynted ag y medra i.'



Felly helpodd Mali â'r coginio, a gofalu am yr hwyaid  
a'r ieir.

Ac aeth i weld ei hen gyndoges, Meri Jên, bob dydd,  
er mwyn gwneud yn siŵr ei bod hi'n iawn.



‘Ry’n ni’n lwcus ein bod ni’n byw ar ynys mor hardd,’  
meddai Meri Jên. ‘Mae’n rhaid i rai pobl ar y tir mawr  
aros yn eu tai!’





Ac er i'r cloi mawr bara mwy nag wythnos, doedd bywyd Mali ddim mor wahanol â hynny, heblaw nad oedd ysgol – na Dada.

Ond un bore, pan aeth Mali i weld Meri Jên, doedd yr hen wraig ddim yn hwylus.

'Cer i nôl Nyrs Elen, dyna ferch dda,' pesychodd o'i gwely.



Felly rhedodd Mali i'w nôl, a phan ddaeth Nyrs Elen, dywedodd fod angen i Meri Jên fynd i'r ysbyty.

'Ydi hi wedi dal y ffliw cas?' sibrydodd Mali i'w mam, oedd wedi dod i helpu.

'Na, pwt, ei chalon sy'n wan,' esboniodd mam Mali.


'Ond sut awn nhw â hi i'r ysbyty? Does neb yn cael gadael yr ynys!' meddai Mali.

'Dwi'n gwybod, Mali, ond mae angen iddi weld meddyg – does dim dewis.'

Felly ffoniodd Nyrs Elen griw'r bad achub.

Ar yr un pryd, gofynnodd am rai pethau bach arbennig – felly daeth y criw â chreision a phapur tŷ bach o'r tir mawr, a sawl peth arall oedd wedi mynd yn brin ar yr ynys.






Ac yna aethon nhw â Meri Jên i'r ysbyty.

Ond rhywsut, er i bawb fod yn ofalus dros ben,  
daeth criw y bad achub â rhywbeth arall i'r ynys.

Rhywbeth drwg ...








Bythefnos wedyn, doedd neb yn cael gadael eu tai.

Roedd y feirws wedi cyrraedd yr ynys, ac roedd rhaid i bawb ei stopio rhag lledu – trwy olchi eu dwylo dro ar ôl tro, ac aros yn eu tai.

Dim ond Nyrs Elen oedd yn cael mentro allan i ymweld â hwn a'r llall.

O, a mam Mali, oedd wedi cynnig ei helpu.



Felly, roedd rhaid i Mali wneud sawl tasg yn y tŷ ar ei phen ei hun:

Mynd â'r ci i'r ardd i gael pi-pi ...

Casglu'r ieir at ei gilydd i'w bwydo – a phenderfynu y byddai'n haws eu cadw yn y tŷ ...

Gwneud yr holl goginio a glanhau am fod ei mam mor brysur yn gwibio rownd yr ynys yn helpu pawb ...

A phan fyddai ei mam yn dod adre min nos, fyddai Mali ddim hyd yn oed yn medru cael cwtsh – doedden nhw ddim yn cael cyffwrdd â'i gilydd!



Dair wythnos wedyn, dim ond sardîns mewn tun  
oedd ar ôl gan Mali a'i mam i'w bwyta ... ac i deulu o  
bysgotwyr, doedd hynny ddim yn dda.

Ac roedd pedwar o bobl yr ynys bellach yn yr ysbyty,  
a sawl un adre'n sâl.



Aeth y cloi mawr ymlaen am gyfnod hir ... cyfnod hir iawn.

Roedd Mali'n gweld eisiau'r ysgol. Roedd hi'n gweld eisiau'i ffrindiau. Ond yn fwy na dim ...

'Sut wyt ti, Dada?' dywedodd hi dros y ffôn.

'Dwi'n dy golli di'n ofnadwy.'

'Dwi'n dy golli di hefyd, pwt – ti a

Mam,' meddai ei thad. 'Ac mae

Yncl Ed yn fy ngyrru'n ddwl.

Mae'n cerdded o gwmpas y

lle o fore gwyn tan nos yn


chwarae'i bibau!'

Chwarddodd Mali.



Gwnaeth Mali ei gwaith cartre i gyd.


Dysgodd hi driciau i'r ci, a byddai'r ddau'n gwneud ymarfer corff gyda'i gilydd.



Dysgodd sut i orffen ei jig-sos yn gyflym iawn, a chreu sawl gêm newydd.

Siaradodd â Dylan a'i ffrindiau (a'i hathrawes) dros y ffôn.

Darllenodd ei hoff lyfrau sawl gwaith, a rhoi cynnig ar rai newydd doedd hi ddim wedi'u darllen o'r blaen – a mwynhau'r rheiny'n fawr hefyd.



A wyddoch chi beth?

Ymhen amser, daeth y cloi mawr i ben, ac roedd pobl yr ynys yn gwella.

Daeth Meri Jên adre o'r ysbyty, wedi gwella'n llwyr.

Ac er na ddaeth pob dim yn ôl i drefn yn syth, roedd Mali, mewn ffordd ryfedd, wedi mwynhau treulio amser adre, dim ond hi a'r ci a'r hwyaid a'r ieir.

Roedd hi hyd yn oed yn gwella wrth chwarae'r ffidil!






Ac o'r diwedd, roedd tad Mali'n cael dod adre o'r  
tir mawr.

Llwythodd y cwch pysgota â mynydd o bethau  
da i bawb, ac aeth bobl yr ynys i'r harbwr i'w  
groesawu 'nôl.

A'r un cyntaf i roi cwtsh mawr iddo wrth iddo  
gamu o'r cwch bach oedd ...

Ie, dyna chi ...

Mali!



# Malachy Doyle

Magwyd Malachy Doyle wrth ymyl y môr yng Ngogledd Iwerddon, ac ar ôl byw yng Nghymru am lawer blwyddyn, mae wedi dychwelyd i Iwerddon. Prynodd ef a'i wraig hen ffermdy ar ynys fach oddi ar arfordir Donegal, a dyma'u cartref bellach gyda'u cŵn, eu cathod a'u hwyaid.

Mae dros gant o lyfrau Malachy wedi cael eu cyhoeddi, o lyfrau bwrdd i'r plant lleiaf i nofelau afaelgar i ddarllenwyr yn eu harddegau. Mae wedi ennill nifer o wobrau pwysig, ac mae ei lyfrau wedi'u cyfieithu i ryw ddeg ar hugain o ieithoedd.





Yn ogystal â'r ddwy stori flaenorol yng nghyfres Mali, *Mali a'r Môr Stormus* a *Mali a'r Morfil*, rhai o'i deitlau diweddar eraill yw *Miracle of Hanukkah*, *Rama and Sita*, *Jack and the Jungle* a *Big Bad Biteasaurus* (Bloomsbury), *Fug and the Thumps* (Firefly), *Cinderfella* (Walker Books) a *Ootch Cootch* (Graffeg), wedi'i ddarlunio gan ei ferch, Hannah Doyle.




# Andrew Whitson



Daw Andrew Whitson o Belfast ac mae'n artist arobryn sy'n hoffi cael ei alw'n Mr Ando! Mae'n byw mewn hen dŷ ar lethrau bryn niwlog, wrth odrau coedwig lawn swyn, gerllaw castell hud yng nghysgod trwyn cawr. Mae ei dŷ'n edrych dros harbwr Belfast lle adeiladwyd y Titanic, ac yn edrych i fyny at Cavehill lle plymiodd awyren fomio Americanaidd – B-17 Flying Fortress – i'r ddaear yn ystod yr Ail Ryfel Byd!

Mae Mr Ando yn creu lluniau ar gyfer llyfrau mewn tŵr hen eglwys ac mae'n cael ei gloi yn yr eglwys yn aml am ei fod yn gweithio yn hwyr yn y nos. Felly mae wedi creu allwedd hud ac mae honno ganddo drwy'r amser – mae'n ei defnyddio er mwyn dianc o'r eglwys pan nad oes neb yn ei weld.

Mae Mr Ando wedi darlunio dros ugain o lyfrau o dan ei enw ei hun. Y diweddaraf o'r rhain yw llyfrau cyfres Mali gyda Malachy Doyle, a chyfres arobryn Rita, sef llyfrau stori-a-llun, gyda Myra Zepf.







GRAFFEG

MALACHY DOYLE ANDREW WHITSON

# MALI A'R CLOI MAWR

